

Safonau Llyfrgelloedd Cyhoeddus Cymru 2014-17

Gwynedd

Adroddiad Asesu Blynyddol 2015-16

Lluniwyd yr adroddiad hwn ar sail yr wybodaeth a ddarparwyd yn y ffurflen flynyddol, yr astudiaethau achos a'r adroddiad naratif a gyflwynwyd gan Gwynedd i Is-adran Amgueddfeydd, Archifau a Llyfrgelloedd Llywodraeth Cymru.

Cymeradwywyd ffurflen flynyddol Gwynedd gan Aelod o'r Cabinet a Phennaeth yr Economi a'r Gymuned ar 29^{ain} Mehefin 2016.

1) Crynodeb Gweithredol

Roedd Gwynedd wedi cyflawni 16 o'r 18 hawl graidd yn llawn, a chyflawni 2 yn rhannol. O'r 7 dangosydd ansawdd sy'n cynnwys targedau, roedd Gwynedd wedi cyflawni 4 yn llawn a 3 yn rhannol.

Mae Gwynedd yn awdurdod mawr, tenau ei boblogaeth, ac iddo'r her o gynnig gwasanaeth teg i bawb o dan gyfyngiadau ariannol a staffio. Mae rhai o'r targedau a fethwyd y llynedd bellach wedi eu cyflawni; ond er gwaetha'r ymdrechion hyn mae yma arwyddion o wasanaeth mewn sefyllfa fregus. Mae'r aseswyr yn pryderu bod lefel y toriadau sydd i'w gweithredu yn 2016/17 yn debygol o arwain at y gwasanaeth yn methu â chyrraedd targedau allweddol ym mlwyddyn olaf y fframwaith.

- Dywedodd holl fynychwyr sesiynau hyfforddi eu bod wedi cael cymorth i gyflawni eu hamcanion. Mae pedair astudiaeth achos ragorol yn rhoi tystiolaeth o effaith y gwasanaeth ar amrywiaeth o ddefnyddwyr.
- Oherwydd bod nifer o fannau gwasanaeth yn fach o ran maint ac oherwydd y lefelau staffio, nid oeddynt yn cynnig yr ystod lawn o gymorth ar gyfer datblygiad unigol, ac mae hyn yn effeithio ar nifer y bobl sy'n mynychu hyfforddiant, sydd ymhlith yr isaf yng Nghymru.
- Mae ymweliadau â safle llyfrgell a rhith-ymweliadau ill dau wedi cynyddu o'i gymharu â'r llynedd, ond maent yn parhau i fod yn is na'r canolrif ar gyfer Cymru. Nifer y llyfrau a fenthycir fesul pen y boblogaeth yw'r ail uchaf yn y wlad. Mae nifer yr eitemau clyweledol a fenthycir wedi cynyddu o'i gymharu â'r llynedd, ond mae'n parhau i fod ymhlith yr isaf yng Nghymru.
- Mae Gwynedd wedi cyflawni'r targedau ar gyfer derbyniadau yn gyffredinol, a'r canran sy'n cael ei wario ar ddeunydd Cymraeg yw'r ail uchaf yng Nghymru, gyda phwyslais yn cael ei roi ar ddeunyddiau i blant. Mae'r ddarpariaeth TGCh yn cyflawni'r targedau, er nad yw mynediad i'r rhyngwrwyd eto ar gael i'r cyhoedd yn y llyfrgelloedd teithiol.
- Mae'r sefyllfa staffio yn cael ei disgrifio i fod yn "fregus iawn" ac mae Gwynedd yn methu â bodloni'r targedau ar gyfer staff fesul pen y boblogaeth. Mae gwariant fesul pen y boblogaeth yn uwch na'r canolrif ar gyfer Cymru, ac ar gost gyfartalog o £3.00 fesul ymweliad dyma'r trydydd uchaf yng Nghymru.

O ran y pedwar maes yn y fframwaith (*Cwsmeriaid a chymunedau; Mynediad i bawb; Dysgu am oes; ac Arweinyddiaeth a datblygu*), o'i gymharu â gweddill Cymru, mae Gwynedd yn

parhau i berfformio'n wael ym maes *Cwsmeriaid a chymunedau*, ond mae'n rhoi pwyslais ar sicrhau mynediad i wasanaethau craidd sylfaenol mewn mannau gwasanaeth llai o faint. Cymysg yw'r canlyniadau yn y meysydd eraill, gyda dangosyddion unigol yn dangos rhai meysydd perfformio cymharol dda, a rhai ddim cystal.

O'i gymharu â'r flwyddyn flaenorol, cafwyd rhai gwelliannau nodedig, e.e. o ran nifer yr ymwelwyr, datblygu casgliadau a darpariaeth TGCh. Mae problem barhaus lefelau staffio isel wedi'i nodi unwaith eto. Mae'n siomedig gweld y gwasanaeth mewn sefyllfa fregus, ar ôl sawl blwyddyn o wneud yn hynod dda, a gobeithir na fydd yr ad-drefnu arfaethedig yn effeithio'n andwyol ar y gwasanaeth a ddarperir. Mae'n destun pryder fod disgwyl i'r toriadau i'r gronfa lyfrau a gymeradwywyd ym mis Mawrth 2016 gael effaith andwyol ar berfformiad.

2) Perfformiad yn erbyn y safonau

Mae'r fframwaith safonau yn cynnwys hawliau craidd, dangosyddion ansawdd sydd â thargedau, dangosyddion ansawdd sydd â meincnodau a mesurau effaith. Mae Adran 2 yn crynhoi cyflawniadau yn erbyn yr hawliau craidd, y dangosyddion ansawdd sydd â thargedau, y dangosyddion ansawdd sy'n dangos perfformiad yn erbyn awdurdodau eraill, a mesurau effaith. Ceir asesiad naratif o berfformiad yr awdurdod yn Adran 3.

a) Hawliau craidd

Mae Gwynedd yn cyflawni 16 o'r 18 hawl graidd yn llawn, ac yn cyflawni 2 yn rhannol. Ni fu newid yn hyn o beth ers y llynedd. Ym maes *Cwsmeriaid a chymunedau* y cofnodir cyflawni rhannol ar ddwy hawl, sef yn ymwneud â staff ac ystod y gweithgareddau a gynigir. Nododd yr awdurdod fod y sefyllfa staffio yn fregus, a'i bod yn fwyfwy anodd cynnal ansawdd y gwasanaeth. O ran gweithgareddau, mae rhaglen amrywiol wedi cael ei chynllunio o flaen llaw ar gyfer y llyfrgelloedd mwy o faint a chaiff ymgyrchoedd cenedlaethol eu cefnogi ym mhob llyfrgell.

b) Dangosyddion ansawdd sydd â thargedau

Mae 16 o ddangosyddion ansawdd (DA) yn y fframwaith. O'r 7 sydd â thargedau, mae Gwynedd yn cyflawni 4 yn llawn a 3 yn rhannol:

Dangosydd Ansawdd	Cyflawni?	
DA 3 Datblygiad unigol:		Cyflawni'n rhannol
a) Cymorth TGCh	✓	
b) Hyfforddiant sgiliau	✗	
c) Llythrennedd gwybodaeth	✗	
d) Cymorth e-lywodraeth	✓	
e) Datblygu darllenwyr	✗	
DA 5 Lleoliad mannau gwasanaeth	✓	Cyflawni'n llawn
DA 8 Deunydd darllen cyfoes:	✓	Cyflawni'n llawn
a) Derbyniadau fesul pen y boblogaeth	✓	
neu Wariant ar ddeunyddiau fesul pen	✓	
b) Cyfradd adnewyddu	✓	
DA 9 Deunydd darllen priodol:		Cyflawni'n rhannol
a) % y gyllideb deunyddiau ar blant	✗	
b) % y gyllideb deunyddiau wedi'i wario ar y Gymraeg	✓	
neu Wariant ar y Gymraeg fesul pen y boblogaeth	✗	
DA 10 Mynediad ar-lein:		Cyflawni'n llawn

Dangosydd Ansawdd	Cyflawni?
a) Pob man gwasanaeth	*
Cyfrifiaduron fesul pen y boblogaeth	✓
b) Darpariaeth Wi-Fi	✓
DA 13 Lefelau staffio a chymwysterau:	Cyflawni'n rhannol
a) Staff fesul pen y boblogaeth	✗
b) Staff proffesiynol fesul pen y boblogaeth	✗
c) Cymhwyster/hyfforddiant pennaeth y gwasanaeth	✓
d) Canran DPP	✓
DA 16 Oriau agor fesul pen y boblogaeth	✓ Cyflawni'n llawn

* Ni chaiff awdurdodau eu cosbi ar y dangosydd hwn os yw'r holl fannau gwasanaeth sefydlog yn cynnig mynediad i'r rhyngwyd, er nad yw eu gwasanaethau teithiol yn gwneud hynny.

Mae hyn yn welliant o'r sefyllfa y llynedd. Mae DA 8 a DA 10 wedi cael eu cyflawni'n llawn eleni, yn sgil buddsoddi mewn stoc a chyfrifiaduron.

c) Mesur effaith

Mae'r fframwaith yn cynnwys tri dangosydd sy'n ceisio casglu tystiolaeth o'r effaith y mae defnyddio'r gwasanaeth llyfrgell yn ei gael ar fywydau pobl. Drwy'r dangosyddion hyn a rhai eraill, mae'n bosibl gweld sut y mae'r gwasanaeth llyfrgell yn cyfrannu tuag at agendâu addysgol, cymdeithasol, economaidd ac iechyd a lles, yn lleol a chenedlaethol. Nid oes targedau i'r dangosyddion hyn. Nid oedd pob awdurdod wedi casglu data ar gyfer y dangosyddion effaith, ac mae'r safleoedd felly wedi'u cynnwys yn ôl nifer yr ymatebwyr a nodir, ac 1 yw'r awdurdod sydd â'r sgôr uchaf.

Nid oedd Gwynedd wedi cynnal arolwg cwsmeriaid eto o dan y fframwaith presennol, ond mae'n bwriadu gwneud hynny yn 2016-17. Mae'r ffigur ar gyfer canran y bobl sydd wedi mynychu sesiynau hyfforddi a ddywedodd bod yr hyfforddiant wedi eu helpu i gyflawni eu hamcanion yn seiliedig ar sampl fechan o 50 ymateb.

Dangosydd perfformiad		Safle	Isaf	Canolrif	Uchaf
DA 1 Gwneud gwahaniaeth					
b) % y plant sy'n meddwl bod y llyfrgell yn eu helpu i ddysgu a chael gwybod pethau:	<i>amherthnasol</i>		86%	93%	99%
e) % yr oedolion sy'n credu bod y llyfrgell wedi gwneud gwahaniaeth i'w bywydau:	<i>amherthnasol</i>		36%	87%	97%
% y plant sy'n credu bod y llyfrgell wedi gwneud gwahaniaeth i'w bywydau:	<i>amherthnasol</i>		57%	73%	93%
DA 4 b) % mynychwyr sesiynau hyfforddi a ddywedodd fod yr hyfforddiant wedi'u helpu i gyflawni eu hamcanion:	100%	1/17	85%	97%	100%

Cyflwynodd Gwynedd 4 astudiaeth achos effaith ragorol a oedd yn dangos y gwahaniaeth gwirioneddol y mae gwasanaeth llyfrgell yn ei gael:

- Defnyddiwr gwasanaeth gwybodaeth Macmillan a gafodd gymorth i wneud cais llwyddiannus am fudd-daliadau perthnasol
- Mwynhad a datblygiad teuluoedd sy'n mynychu sesiynau'r cynllun llythrennedd
- Tystiolaeth defnyddwraig hŷn y mae defnyddio'r llyfrgell yn cyfoethogi ansawdd ei bywyd
- Gwraig weddw sydd wedi dysgu defnyddio ei gliniadur i gyfathrebu a phrynu ar-lein gyda chymorth gan y Llyfrgell

d) Dangosyddion perfformiad a meincnodau ansawdd

Nid oes targedau i'r dangosyddion sy'n weddill, ond maent yn fodd i gymharu perfformiad rhwng awdurdodau. Mae'r tabl canlynol yn crynhoi sefyllfa Gwynedd ar gyfer 2015-16. Mae safle'r awdurdod wedi'i roi allan o 22, sef 1 yw'r uchaf a 22 yw'r awdurdod sydd â'r sgôr isaf, oni nodir yn wahanol. Mae dangosyddion sydd â llai na 22 awdurdod wedi cyflenwi data ar eu cyfer yn dod o arolygon cwsmeriaid sydd ond angen eu cynnal unwaith yn ystod y cyfnod fframwaith tair blynedd, neu ddangosyddion lle nad oedd yr elfennau data perthnasol ar gael i rai awdurdodau. Mae ffigyrau a adroddwyd ar gyfer DA 4 i DA 16 y llynedd wedi'u hailadrodd er hwylustod cymharu. Noder bod y dangosyddion 'y pen' wedi'u cyfrifo fesul 1,000 y boblogaeth.

Dangosydd perfformiad		Safle	Isaf	Canolrif	Uchaf	2014/15	Safle
DA 1 Gwneud gwahaniaeth							
a) sgiliau newydd	<i>amherthnasol</i>		23%	72%	92%		
c) iechyd a lles	<i>amherthnasol</i>		26%	58%	93%		
d) lle diogel a chroesawgar	<i>amherthnasol</i>		84%	97%	100%		
DA 2 Bodlonrwydd cwsmeriaid							
a) dewis 'da iawn' neu 'da' o lyfrau	<i>amherthnasol</i>		74%	89%	97%		
b) gofal cwsmeriaid 'da iawn' neu 'da'	<i>amherthnasol</i>		90%	97%	99%		
c) 'da iawn' neu 'da' yn gyffredinol;	<i>amherthnasol</i>		92%	97%	99%		
d) sgôr plant allan o ddeg	<i>amherthnasol</i>		8.0	9.2	9.5		
DA 4 Hyfforddiant i ddefnyddwyr							
a) mynychwyr fesul pen y boblogaeth	7	21	5	30	390	8	19
c) hyfforddiant anffurfiol fesul pen y boblogaeth	<i>amherthnasol</i>	15/19	3	195	1017	88	18 / 21
DA 6 Defnyddio'r llyfrgell							
a) ymweliadau fesul pen y boblogaeth	3,156	19	2,467	3,967	6,185	3,090	20
b) ymweliadau rhithwir fesul pen y boblogaeth	944	12	340	976	2,475	839	13
c) benthycwyr gweithredol fesul pen y boblogaeth	146	13	45	157	273	203	5
DA 7 Mynychwyr mewn digwyddiadau fesul pen y boblogaeth	222	12	60	223	666	218	10
DA 11 Defnyddio TGCh - % yr amser ar gael i'w defnyddio gan y cyhoedd							
a) offer	31%	12	20%	31%	68%	35%	12
b) gwasanaethau Wi-Fi	<i>gweler 3c</i>		20%	60%	90%	ni wyddys	
DA 12 Cyflenwi ceisiadau							
a) % ar gael o fewn 7 diwrnod	70%	14	57%	71%	86%	69%	11
b) % ar gael o fewn 15 diwrnod	86%	9	71%	86%	96%	86%	8
DA 13 Lefelau staffio a chymwysterau							
(v) a) cyfanswm gwirfoddolwyr	7	19	0	18	103	3	15
b) cyfanswm oriau gwirfoddolwyr	250	16	0	582	3,699	150	16
DA 14 Gwariant gweithredol							
a) cyfanswm gwariant fesul pen y boblogaeth	£13,530	9/21	£7,516	£12,749	£18,760	£15,421	8
b) % ar staff	53%	16/21	40%	58%	79%	46%	20
% ar adnoddau gwybodaeth	16%	6/21	7%	13%	23%	14%	9
% ar offer ac adeiladau	20%	1/21	1%	3%	20%	15%	2
% ar gostau gweithredol eraill;	11%	18/21	0%	20%	39%	24%	15
c) gwariant cyfalaf fesul pen y boblogaeth	£1,633	5/21	£0	£272	£4,677	£893	8
DA 15 Cost net am bob ymweliad	£3.00	3/21	£1.83	£2.43	£3.53	£3.68	1 / 11

Dangosydd perfformiad		Safle	Isaf	Canolrif	Uchaf	2014/15	Safle
DA 16 Oriau agor (<i>gweler y nodyn</i>)							
(ii) a) % oriau cau mannau gwasanaeth sefydlog heb gynllunio gwneud hynny	0.13%	20	0.00%	0.00%	0.16%	0.29%	21
b) % arosfannau llyfrgell deithiol / danfon i'r cartref a fethwyd	0.00%	1/19	0.00%	0.71%	23.44%	1.6%	14 / 19

Nodyn: Mae'r safleoedd yma wedi'u troi o chwith, sef mai 1 yw'r awdurdod sydd â'r sgôr isaf (perfformio orau).

3) Dadansoddi perfformiad

Mae'r hawliau craidd a'r dangosyddion ansawdd wedi cael eu rhannu yn bedwar maes allweddol. Mae adran hon yr adroddiad yn amlinellu perfformiad yn erbyn y dangosyddion ansawdd yn y pedwar maes hynny ac yn cymharu â chanlyniadau blwyddyn gyntaf y fframwaith.

a) Cwsmeriaid a chymunedau

Nid yw Gwynedd hyd yma wedi cynnal arolwg cwsmeriaid ar gyfer y fframwaith presennol. Nid yw ystod lawn y cymorth ar gyfer datblygiad unigol ar gael ym mhob man gwasanaeth, gyda sesiynau hyfforddi a llythrennedd gwybodaeth ar gael mewn 6 yn unig o'r 15 llyfrgell sydd ar agor am 10 awr neu fwy yr wythnos, a gweithgareddau datblygu darllenwyr mewn 9 ohonynt. Gan fod lefelau staffio yn isel, mae'r awdurdod yn rhoi pwyslais ar sicrhau mynediad at wasanaethau craidd a chefnogaeth sylfaenol. Mae hyn o reidrydd yn effeithio ar gyfraddau presenoldeb mewn hyfforddiant, sef yr ail isaf yng Nghymru.

b) Mynediad i bawb

Mae Gwynedd yn cyrraedd y targed ar gyfer mynediad i fannau gwasanaeth. Mae nifer yr ymweliadau wedi codi eto ar ôl gostwng y llynedd, ond maent yn parhau yn is na'r canolrif ar gyfer Cymru. Mae nifer yr ymweliadau rhithwir hefyd wedi codi. Mae nifer y benthycwyr gweithredol yn agos at ganolrif Cymru, felly hefyd presenoldeb mewn digwyddiadau. Mae nifer y llyfrau a fenthycir fesul pen y boblogaeth wedi gostwng o'i gymharu â llynedd, ond mae'n parhau i fod yr ail uchaf yng Nghymru. Mae nifer yr eitemau clyweledol ac electronig a fenthycir wedi cynyddu o'i gymharu â'r llynedd, ond mae'n parhau i fod ymhlith yr isaf yng Nghymru.

c) Dysgu am oes

Mae Gwynedd wedi cyflawni'r holl dargedau o ran lefelau derbyniadau cyffredinol eleni. Mae gwario ar blant yn rhagori ar y targed o'i gymharu â chyfran y plant yn y boblogaeth, ac mae'r awdurdod yn nodi bod pwyslais yn cael ei roi ar brynu deunyddiau cyfrwng Cymraeg i blant. Canran gwariant Gwynedd o'r gyllideb deunyddiau ar ddeunydd Cymraeg yw'r uchaf yng Nghymru. Mae bron dwy ran o dair ar ddeunydd plant, a'r awdurdod yn nodi bod y defnydd yn adlewyrchu'r buddsoddiad. Mae mynediad TGCh yn cael ei ddarparu ym mhob llyfrgell sefydlog, ond nid felly yn y llyfrgelloedd teithiol, er y rhoddir ystyriaeth i hyn yn ystod 2016-17 os gellir sicrhau cyllid. Roedd y rhwydwaith Wi-Fi, sydd ar gael 24/7 ym mhob llyfrgell sefydlog, wedi cael ei ddefnyddio mewn 84346 sesiwn, pob un yn para 44 munud ar gyfartaledd. Mae'r awdurdod yn nodi bod y ffigwr canran defnydd sy'n deillio o hyn (h.y. dros 100%) yn gamarweiniol, gan ei fod yn cynnwys defnydd y tu allan i oriau agor llyfrgelloedd. Bu ychydig o welliant eto yng nghyflymder cyflenwi ceisiadau o'i gymharu â'r flwyddyn flaenorol.

d) Arweinyddiaeth a datblygu

Mae'r sefyllfa staffio yng Ngwynedd yn cael ei ddisgrifio yn un 'bregus iawn' ar y ffurflen, ac mae'n parhau i beri pryder cyson. Mae'r lefelau staffio cyffredinol wedi'u cadw ar lefelau'r llynedd ac maent yn parhau yn is na'r canolrif ar gyfer Cymru. Mae pennaeth y gwasanaeth

yn Llyfrgellydd Siartredig. Mae hyfforddiant staff wedi'i gefnogi'n dda, ac ystod o gyfleoedd yn cael eu cynnig. Cafodd 7 gwirfoddolwr eu defnyddio gan Gwynedd yn ystod y flwyddyn, gan roi cyfartaledd o 36 awr yr un i'r gwasanaeth, ac yn cynnal sesiynau TG i ddefnyddwyr sydd angen cymorth un-i-un. Bu gostyngiad o 12% mewn gwariant fesul pen y boblogaeth o'i gymharu â'r llynedd, ac mae'r lefel yn uwch na'r canolrif ar gyfer Cymru. Mae'r gost am bob ymweliad, sef £3.00, wedi gostwng 22% o'i gymharu â llynedd, a hynny oherwydd y cynnydd mewn ymweliadau. Mae'r oriau agor yn cyrraedd y targed, a dyma'r trydydd uchaf yng Nghymru.

4) Cyd-destun strategol

Disgrifiodd Gwynedd ei chyfraniad tuag at amrywiaeth o flaenoriaethau ehangach y Llywodraeth, gan gynnwys gwrth-dlodi a chydlyniant cymunedol, iechyd a lles, addysg a llythrennedd, iaith a diwylliant, llythrennedd gwybodaeth a gwasanaethau cyhoeddus cynaliadwy.

5) Cyfeiriad i'r dyfodol

Disgwylir toriadau mawr yn y gyllideb i'r gwasanaeth llyfrgell yn y dyfodol. Testun cryn bryder yw effaith toriad o 25% mewn gwariant o fis Ebrill 2016 ar gynaliadwyedd gwasanaeth sydd eisoes yn fregus, a'r goblygiadau i safon y gwasanaeth a gynigir i'r cyhoedd. Mae'r awdurdod yn nodi nad yw'n bosibl cynnal y rhwydwaith presennol o dan y gyllideb arfaethedig, ac mae'n disgrifio cynllun darparu arfaethedig sy'n cynnwys naw llyfrgell dalgylch, pedair llyfrgell gymunedol, pedwar gwasanaeth 'cyswllt' a gwasanaethau teithiol, gan resymoli oriau agor. Disgwylir rhoi hyn ar waith o fis Ebrill 2017 a bydd MALD am gael sicrwydd na fydd hyn yn rhoi sectorau o'r boblogaeth dan ormod o anfantais.

6) Casgliad

Mae Gwynedd yn awdurdod mawr, tenau ei boblogaeth, ac iddo'r her o gynnig gwasanaeth teg i bawb o dan gyfyngiadau ariannol a staffio. Mae rhai o'r targedau a fethwyd y llynedd bellach wedi eu cyflawni; ond er gwaetha'r ymdrechion hyn mae yma arwyddion o wasanaeth mewn sefyllfa fregus. Mae'r aseswyr yn pryderu bod lefel y toriadau sydd i'w gweithredu yn 2016/17 yn debygol o arwain at y gwasanaeth yn methu â chyrraedd targedau allweddol ym mlwyddyn olaf y fframwaith.